# Gweithlen

## Cerddoriaeth
## Y Sîn Gymraeg

Oeddech chi'n gwybod?




Ar y 9fed o Chwefror eleni roedd *#DyddMiwsigCymru*.

**Bwriad *#DyddMiwsigCymru*** ydy helpu pobl **ddod o hyd i** fiwsig maen nhw'n ei fwynhau ac mae'r **cyfan** yn yr iaith Gymraeg.

Dim ots pa fath o fiwsig rydych chi'n fwynhau – *indie, rock, punk, funk, electronica, hip-hop* ... mae **dewis anhygoel** o gerddoriaeth yn yr iaith Gymraeg.

**cymraeg.llyw.cymru/dyddmiwsigcymru**

**Beth amdanoch chi?**

- Ydych chi'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth?
- Pa fath o gerddoriaeth fyddwch chi'n fwynhau?
- Pa fand/artist ydy eich ffefryn? Pam?
- Pa ganeuon gan y band/artist ydych chi'n hoffi fwyaf?
- Fyddwch chi'n gwrando ar fandiau/artistiaid Cymraeg?

Beth ydy:

*the whole lot*
*amazing choice*
*find*
*intention*


yn Gymraeg?



**YSGRIFENNWCH** 6 brawddeg gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod.
Cofiwch amrywio (*vary*) eich brawddegau:
Dw i'n hoffi ... Dw i'n mwynhau ... Fy hoff ... Mae'n well gen i ...
ond dw i ddim yn hoff iawn o ...
pob math, ambell waith, yn aml, weithiau, o dro i dro.



**DARLLENWCH** eich brawddegau ar goedd i'ch partner.



Ydych chi a'ch partner yn cytuno neu'n anghytuno? – **TRAFODWCH**.

Hoffech chi wybod mwy am fandiau ac artistiaid Cymraeg?



Hoffwn, wrth gwrs. A dweud y gwir, baswn i wrth fy modd.

Wel, i ddod i wybod mwy am fandiau ac artistiaid Cymraeg bydd rhaid i chi ddarllen 'Y Selar'.




Dyma gopi o **glawr rhifyn diweddaraf** 'Y Selar'.
Cylchgrawn Cymraeg ydy 'Y Selar' sy'n **rhoi sylw** i'r sîn gerddoriaeth Gymraeg **gyfoes**. Mae pedwar rhifyn mewn blwyddyn ac maen nhw am ddim! Mae'n bosibl cael copi o siopau Cymraeg, Gwersylloedd Yr Urdd ac ysgolion uwchradd.

HEFYD, ewch i www.yselar.cymru i gael mwy o **fanylion** ac i ddarllen y rhifyn diweddara (ac ôl rifynnau) ar eich ffôn, tabled, cyfrifiadur ...

**MYNNWCH eich copi!**

**clawr** - cover

**rhifyn diweddaraf** - most recent copy

**rhoi sylw** - give attention to

**cyfoes** - contemporary

**manylion** - details

**DARLLENWCH** am y band ***FFRACAS*** o ardal Pwllheli.




**aelod** – member
**mwyaf cyffrous** – most exciting
**prif leisydd** – lead vocal
**ar hyn o bryd** – at the moment
**cafodd... ei ryddhau** – ... was released
**cafodd ei recordio** – ... was recorded
**ail** - second
**gorau (masc) / orau (fem)** – best

Mae 4 **aelod** yn y band ***Ffracas*** o ardal Pwllheli. Band *Indie Rock* ydy ***Ffracas*** yn fwy na dim (*more than anything*).

Mae Sion Adams a Ceiri Humphreys yn canu'r gitâr. Jack Williams ydy'r **prif leisydd** ac mae o'n canu'r gitâr fâs hefyd. Drymiwr y band ydy Owain Lloyd.

Ar 16 Awst llynedd **cafodd** EP newydd y band **ei ryddhau** ar label I Ka Ching. **Cafodd** yr EP **ei recordio** yn stiwdio Sain yn Llandwrog ger Caernarfon.

Dyma **ail** EP ***Ffracas***. Enw'r EP cyntaf oedd *Dyma Hi*. Enillodd *Dyma Hi*, 'Record Fer **Orau**' Gwobrau'r Selar ac hefyd ***Ffracas*** enillodd 'Band Newydd **Gorau**' Gwobrau'r Selar. Mae'n debyg mai ***Ffracas*** ydy un o'r bandiau **mwyaf cyffrous** yng Nghymru **ar hyn o bryd**.

Ewch ar *YouTube* i glywed y band yn canu *Petalau'r Haul, Carots, Niwl* a mwy ...

Nawr, **DARLLENWCH** am y band ***CANDELAS*** o ardal Llanuwchllyn.






Band *Indie Rock* o ardal Llanuwchllyn ger Y Bala ydy ***Candelas***.

Mae 5 aelod yn y band yma – Osian Williams, Gruffydd Jones ac Ifan Jones (gitâr), Tomos Edwards (gitâr fâs) a Lewis Williams (drymiau).

Ers 2013 mae'r band yn recordio ar label **I Ka Ching** ac maen nhw wedi rhyddhau 2 albwm a 3 sengl.

Yn 2013 hefyd enillodd y band 3 gwobr – *Cân Orau, Record Hir Orau a Band Gorau* Gwobrau'r Selar.

Gwrandewch ar Candelas yn canu ar ***Spotify*** neu ***YouTube***. Hefyd mae gan y band dudalen **Gweplyfr** ac mae'n bosibl dilyn y band ar **Trydar**.

## Tasg 1:

Nodwch **3** pheth sy'n **debyg** a **3** pheth sy'n **wahanol** rhwng y band ***Ffracas*** a'r band ***Candelas***.

## Tasg 2:

Defnyddiwch:

- y darn darllen am y band ***Ffracas***
- y darn darllen am y band ***Candelas***

a'r

- ffeil-o-ffaith

i'ch helpu i ysgrifennu proffil y band ***Sŵnami***.




Ffeil-o-ffaith y band ***Sŵnami***.

| | |
|---|---|
| Math o fand: | *Indie Rock* |
| O ble: | Ardal Dolgellau, Gwynedd |
| Iaith y caneuon: | Cymraeg (yn bennaf) |
| Label recordio: | Rasal (2012 – 2014)<br>I Ka Ching (2014 – presennol) |
| Nifer yr aelodau: | 5 |
| Aelodau: | Ifan Davies (prif leisydd)<br>Ifan Ywain (gitâr)<br>Gerwyn Murray (gitâr fâs)<br>Lewis Williams (drymiau)<br>Gruff Jones (synth) |
| Gwobrau: | Brwydr y Bandiau 2011 (Eisteddfod Wrecsam)<br>Brwydr y Bandiau 2012 (Wakestock) |
| Gwobrau'r Selar: | EP/sengl Gorau 2015<br>Fideo Gorau 2015 |




Band arall o Ogledd Cymru ydy **Yws Gwynedd**.

## Tasg 3:

Defnyddiwch y wê i ddod o hyd i'r manylion canlynol am y band i greu ffeil-o-ffaith tebyg i'r un ar ***Sŵnami***.

Math o fand:
O ble:
Sawl aelod:
Aelodau:
Prif leisydd:
Label recordio:
Gwobrau:
Caneuon:
ayyb. (*etc.*)

## Tasg 4:

Dewiswch eich hoff fand (Cymraeg neu Saesneg). Ysgrifennwch broffil o'r band.

Defnyddiwch y proffil i gyflwyno'r band i weddill eich grŵp/dosbarth.

**Cofiwch ddweud:**
- pam rydych chi'n hoffi'r band
- pwy ydy eich hoff aelod
- pa un ydy eich hoff gân
- pam rydych chi'n hoffi'r gân


**Cofiwch gynnwys:**
- manylion sy mewn ffeil-o-ffaith
- lluniau

**Cofiwch:**
- chwarae eich hoff gân (e.e.ar Spotify) neu dangoswch glip o'r gân (e.e ar YouTube)

## Tasg 5:

**Uned 2 Arholiad TGAU – Cyfathrebu ag eraill**
Mewn pâr neu grŵp o dri trafodwch:
**Y sîn gerddoriaeth Gymraeg.**
Defnyddiwch y darnau darllen yn y weithlen hon, hefyd y posteri, y lluniau, y graff, y logos a'r darnau pytiog isod i'ch helpu.

**Cofiwch:**
- **gyfeirio at** y lluniau, y graff, y posteri, y logos, y testunau byr
- **gwrando** ac **ymateb** i farn eich partner/grŵp
- **mynegi barn** am gynnwys y sbardun a chynnig eich barn eich hun am y testun
- cytuno ac anghytuno gydag aelodau'r grŵp wrth holi eu barn.







Dw i ddim yn hoff iawn o gerddoriaeth rock. Mae'n well gen i *Rap* neu *Hip-hop*. Does gen i ddim hoff fand, dw i ddim yn meddwl. Bydda i'n mwynhau gigs a gwrando ar fandiau ar Spotify a gweld ar YouTube. **Tracey J.**

Dw i wrth fy modd gyda cherddoriaeth o bob math ond fy hoff genre ydy *Indie Rock*. Dw i byth yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg ond dylwn i wrando ar fandiau fel Ffracas a Candelas o hyn ymlaen (*from now on*). **Josh W.**

Bydda i'n mwynhau darllen cylchgronau am y sîn gerddoriaeth, felly bydda i'n siwr o fynd ar y wê i ddod o hyd i 'Y Selar'. Hefyd dw i'n mynd i wrando ar Yws Gwynedd ar Spotify.
**Martha R.**